



The Institute for Innovative Materials, Processing and Numerical Technologies (IMPACT)

A Centre of Excellence based within the College of Engineering at Swansea University Bay Campus.

IMPACT is a £35 million state-of-the-art engineering research institute specialising in fundamental research and innovation in advanced engineering, modelling and materials.

As a Centre of Excellence, IMPACT supports the global engineering industry with collaborative, fundamental research. The IMPACT building offers a unique colocation facility for academia-industry partnerships within a transformative research environment.

Completed in May 2019, the building itself is divided by a linked atrium into two distinct areas, which include a research office building and a laboratory building with 1,600m² open plan workshop. Together they house 80 single occupancy offices, hub space for over 150 researchers and colocation space for 50 industrial and academic collaborators. Externally, the north entrance features a large living wall of plants and flowers, approximately 114m², providing year-round texture and colour.

The ethos of IMPACT is to foster academia-industry partnerships, promoting cross-disciplinary fertilisation of ideas in the pursuit of new pioneering technology. This will be achieved by bringing together first class expertise from the College, attracting leading talent and partnering with the World's largest companies and regional partners.

The operation has been part-funded by the European Regional Development Fund through the Welsh Government and Swansea University.

Contact Us:
[www.swansea.ac.uk
/engineering/impact](http://www.swansea.ac.uk/engineering/impact)
 [SU_engIMPACT](#)
 [su_engimpact](#)





Prifysgol Abertawe
Swansea University

IMPACT



Y Sefydliad ar gyfer Deunyddiau, Prosesu a Thechnolegau Rhifyddol Arloesol (IMPACT)

Canolfan Ragoriaeth sy'n rhan o'r Coleg Peirianneg ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe.

Mae IMPACT yn sefydliad ymchwil peirianneg gwerth £35 miliwn, gyda'r cyfleusterau diweddaraf, ac mae'n arbenigo mewn ymchwil hanfodol ac arloesedd ym meysydd peirianneg uwch, modelu a deunyddiau.

Mae IMPACT yn Ganolfan Ragoriaeth, ac felly mae'n cefnogi'r diwydiant peirianneg byd-eang â gwaith ymchwil hanfodol, cydweithredol. Mae adeilad IMPACT yn gyfleuster cydleoli unigryw ar gyfer partneriaethau rhwng academia a diwydiant mewn amgylchedd ymchwil trawsffurfiannol.

Cwblhawyd yr adeilad ei hun ym mis Mai 2019, ac mae atriwm cyswllt yn ei rannu yn ddwy ardal ar wahân, sef adeilad swyddfa ymchwil ac adeilad labordy, gyda gweithdy cynllun agored 1,600m². Gyda'i gilydd mae'r rhain yn darparu lle ar gyfer 80 o swyddfeydd i unigolion, canolbwyt ar gyfer dros 150 o ymchwilwyr a safle cydleoli ar gyfer 50 o gydweithwyr diwydiannol ac academaidd. Ar y tu allan, mae mynedfa'r gogledd yn cynnwys wal fyw fawr o blanhigion a blodau, tua 114m², sy'n darparu amrywiaeth a lliw ar hyd y flwyddyn.

Ethos IMPACT yw meithrin partneriaethau rhwng academia a diwydiant, gan hybu ffrwythloniad syniadau ar draws disgyblaethau wrth geisio cael hyd i dechnoleg newydd arloesol. Cyflawnir hyn trwy gyfuno arbenigedd o'r radd flaenaf o'r Coleg, denu doniau amlwg, a chreu partneriaethau â chwmniau mwyaf y byd a phartneriaid rhanbarthol.

Mae'r prosiect wedi cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru a Phrifysgol Abertawe.

Cysylltwch
â ni:

[www.swansea.ac.uk
/engineering/impact](http://www.swansea.ac.uk/engineering/impact)
 [SU_engIMPACT](#)
 [su_engimpact](#)